

# Mwg Tywyll?



Yn unol â Deddf Aer Glân 1993 [y Ddeddf] mae'n drosedd\* gollwng mwg tywyll o simnai unrhyw adeilad. O'i gael yn euog o'r fath drosedd gallai deilydd yr adeilad orfod talu dirwy o hyd at **£1,000**, neu **£5,000** yn achos rhywun â chanddynt fwrnais mewn bwylwr neu beiriant diwydiannol. Mae darpariaethau tebyg yn berthnasol i beiriannau rheilffordd a badau sy'n teithio ar ddŵr.

Mae'n drosedd\* hefyd achosi i fwg tywyll ollwng o unrhyw adeilad masnachol neu ddiwydiannol. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â mwg o **Goelcerthi**. Gall adeiladau masnachol gynnwys ffermydd a safleoedd dymchwel. Gallai unrhyw un sy'n achosi'r fath fwg, neu sy'n caniatáu iddo gael ei achosi, orfod talu dirwy o hyd at **£20,000** os ceir nhw yn euog.

Ystyrir y bydd mwg tywyll wedi ei ryddhau os yw'n ymddangos fod deunydd wedi cael ei losgi ac y byddai'r deunydd hwnnw, yn ôl pob tebyg, wedi achosi mwg tywyll. Gall y Cyngor ystyried bod trosedd mwg tywyll wedi ei chyflawni os yw'n cael hyd i dystiolaeth o olion plastig, teiars neu fwrdd sglodion ac ati mewn gweddillion coelcerth. Mae **Llosgi Ceblau** yn drosedd benodol dan adran 33 y Ddeddf ac mae'r ddirwy am wneud hynny yn gallu bod cymaint â **£5,000**.

\* Mae rhai eithriadau i'r troseddau hyn ac nid ydynt yn berthnasol i weithgaredd y cafwyd Trwydded ar ei gyfer dan reoliadau rhan 2 Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999.

## Mesur Mwg Tywyll Siart Mwg Ringelmann

Mwg Tywyll ydi mwg sydd cyn dywyllled â rhif 2 ar y Siart Ringelmann, neu dywyllach. Gellir defnyddio'r siart isod i'ch cynorthwyo:-

	Lliw 4	Daliwch y siart hyd braich i ffwrdd gyda'r rhannau eraill o'r daflen wedi eu plygu i mewn fel bod y panelau llwyd ar ymyl y dudalen.
	Lliw 3	Edrychwch ar y mwg a'i gymharu gyda'r siart.
	Lliw 2	Os yw'r mwg cyn dywyllled â hyn neu'n dywyllach efallai eich bod yn cyflawni trosedd.
	Lliw 1	

Mae'r Siart Ringelmann yn deillio o BS2742M. Gellir cael Safonau Prydeinig ar ffurf copi caled neu PDF o siop ar-lein BSI: [www.bsigroup.com/Shop](http://www.bsigroup.com/Shop) neu drwy gysylltu gyda Gwasanaeth Cwsmeriaid BSI am gopïau caled yn unig: Rhif ffôn 020 8996 9001

Gall Llys fod yn fodlon bod mwg yn fwg tywyll, neu ddim yn fwg tywyll, hyd yn oed os na chafodd ei gymharu gyda'r siart Ringelmann.

wrexham  
WREXHAM  
WREXHAM



Chartered Institute of  
Environmental  
Health



CONWY  
CONWY  
CONWY

Sefydliad Siartredig  
Iechyd yr  
Amgylchedd

Powys

CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR  
YNYSS Môn  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL